


## Y Siop a'r Ardd

Mae croeso i chi fwynhau'r ardd draddodiadol a'r olygfa drawiadol tua'r Foryd a thu hwnt. Beth am i chi ddod â phicnic gyda chi? Cofiwch alw heibio'r siop ar ddiwedd eich ymweliad!

## La boutique et le Jardin

N'hésitez pas, allez voir le jardin traditionnel et le panorama magnifique sur l'estuaire et au-delà. Pourquoi ne pas apporter votre pique-nique? N'oubliez pas de faire un tour dans la boutique à la fin de votre visite!




## Gwirfoddoli

Ydych chi'n unigolyn brwdfrydig, ymroddgar ac yn mwynhau gweithio gydag eraill? Beth am i chi ymuno â'n tîm o wirfoddolwyr sy'n helpu ar y penwythnosau, gydag ymweliadau grŵp a gweithgareddau codi arian? Cysylltwch â'r Ganolfan Dreftadaeth am fanylion.

## Travail Bénévole

Etes-vous une personne enthousiaste et passionnée qui aime travailler avec autrui? Que penseriez-vous de devenir membre de notre équipe de bénévoles qui nous aident le week-end, pendant les visites de groupe et les activités de collecte de fonds? Pour tous renseignements complémentaires, veuillez vous adresser au Heritage Centre.



## Tâl mynediad Droit d'entrée

| | |
|---|---|
| Oedolion Adultes | £3.50 |
| Pensiynwyr Retraités | £3.00 |
| Plant Enfants | £3.00 |
| Tocyn Teulu Billet familial | £10.00 |

Gostyngiad ar gael i grwpiau Tarif spécial groupe

## Amseroedd agor Heurs d'ouverture

**Tymor yr haf Trimestre d'été**

| | |
|---|---|
| Llun Lundi | Ar gau Fermé |
| Mawrth i Gwener Du Mardi au Vendredi | 10.00-16.00 |
| Sadwrn a Sul Samedi et Dimanche | 12.00-16.00 |

**Tymor y gaeaf Trimestre d'hiver**

Ar gau. Cysylltwch â ni i drefnu ymweliad

Fermé. Veuillez nous contacter pour organiser une visite

Maes parcio; byrddau picnic; toiledau; cyfleusterau i'r anabl; cyfleusterau newid clwt; cŵn tywys yn unig

Parking; tables de pique-nique; toilettes; installations pour les handicapés; installations de toilette spéciales pour les bébés; chiens d'aveugle uniquement

## Lleoliad Directions

Trowch oddi ar y A487 rhwng Llanwnda a Bontnewydd i gyfeiriad Rhosgadfan. Dringwch yr allt drwy bentref Rhostryfan. Wedi i chi gyrraedd Rhosgadfan trowch i'r chwith, arwyddwyd 'Waunfawr'. Mae Cae'r Gors ar y llaw chwith i'r ffordd.

Quittez la route A487 entre Llanwnda et Bontnewydd et prenez la direction de Rhosgadfan. Montez la côte et traversez Rhostryfan. Une fois arrivé à Rhosgadfan, tournez à gauche en direction de 'Waunfawr'. Cae'r Gors se trouve sur le côté gauche de la route.





**Cae'r Gors: Canolfan Dreftadaeth Kate Roberts, Rhosgadfan, CAERNARFON, Gwynedd, LL54 7EY**

**t:** 01286 831 715
**e:** post@caergors.org
**w:** www.caergors.org




# Cae'r Gors

CANOLFAN DREFTADAETH
Kate Roberts
HERITAGE CENTRE





Ym mh'le yn y byd y cawsoch chi'ch magu?

"Ar fynyddoedd sir Gaernarfon yn y lle mwyaf bendigedig sy'n bod."

TEGWCH Y BORE

Dans quel coin du monde avez-vous été élevée?

"Dans les montagnes du Caernarfonshire, lieu béni entre tous"

TEGWCH Y BORE

**Croeso - Welcome - Bienvenue - Willkommen - 歡迎 - Bruchim habaim**


Gyda chymorth Cronfa Dreftadaeth y Loteri
Supported by the Heritage Lottery Fund

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government



Llun trwy garedigrwydd Llyfrgell Genedlaethol Cymru
Photographie reproduite avec l'aimable autorisation de la Bibliothèque Nationale du Pays de Galles

## Pwy oedd Kate Roberts?

Ganed yn 1891 a'i magu'n ferch i chwarelwr ar dyddyn traddodiadol yn Rhosgadfan. Daeth i fod yn awdures, newyddiadurwraig a chenedlaetholwraig glodfawr yng Nghymru ac fe gyfeirir ati fel 'Brenhines ein Llên'. Cyhoeddodd 16 o gyfrolau, gyda naw ohonynt yn gasgliadau o straeon byrion. Addaswyd dwy o'r cyfrolau hyn ar gyfer y sgrin ac mae detholiad ohonynt wedi eu cyfieithu i'r Saesneg, Ffrangeg, Almaeneg, Japanaeg a'r Hebraeg.

## Qui était Kate Roberts?

Née en 1891 et élevée sur une petite exploitation agricole traditionnelle à Rhosgadfan, cette fille de perrayeur devint l'un des écrivains les plus renommés du Pays de Galles. Journaliste et nationaliste, elle est considérée comme la 'Reine de la littérature galloise.' Elle a publié un total de 16 volumes, neuf desquels sont des recueils de nouvelles. Deux de ses ouvrages ont été adaptés pour l'écran et certains ont été traduits en anglais, en français, en allemand, en japonais et en hébreu.

## Cae'r Gors

**1** Ffilm / Film · **2** Y gegin / Cuisine · **3** Y parlwr / Salon · **4** Tŷ llaeth / Laiterie · **5** Y siambr / Chambre




## Caban

Mae eich taith yn dechrau yn y Caban lle cewch wylio ffilm fer yn trafod cerrig milltir yng ngyrfa a bywyd personol Kate Roberts.

Gellir llogi'r Caban ar gyfer cyfarfodydd, gweithdai, darlithoedd a chyrsiau. Cysylltwch â'r Ganolfan Dreftadaeth am wybodaeth.



## Caban - c'est-à-dire 'cabine', lieu oùles perrayeurs allaient manger leur déjeuner à la carrière

Votre visite commence au Caban où vous pouvez regarder un film de courte durée présentant les étapes importantes de la carrière et de la vie privée de Kate Roberts.

Vous pouvez louer le Caban pour vos réunions, ateliers, conférences et cours. Pour tous renseignements complémentaires, veuillez vous adresser au Heritage Centre.



## Beudy
### Hen gartref Brethyn y fuwch

**Sut le oedd Rhosgadfan ar droad yr ugeinfed ganrif?**

**Pwy a beth ysbrydolodd Kate Roberts?**

**Sut brofiad oedd byw ar dyddyn?**

Cewch wybod hyn a mwy yn ein harddangosfa aml-gyfrwng.

## Beudy - c'est-à-dire 'étable', c'est là qu'a vécu autrefois une vache nommée Brethyn

**Quel genre d'endroit était Rhosgadfan au début du vingtième siècle?**

**Quelles sont les personnes et les choses qui ont inspiré Kate Roberts?**

**Quel était le mode de vie sur une petite exploitation agricole?**

Apprenez tout cela et bien plus encore dans notre exposition multimédia.



## Y Tŷ - Cae'r Gors

"Y mae'r gwynt yn ubain o gwmpas y tŷ ac yn crio fel plentyn. Mae canghennau'r coed wrth y gadlas yn gwichian..." Y Lôn Wen



Cewch gamu'n ôl mewn hanes i gyfnod plentyndod Kate Roberts a mwynhau amgylchedd clyd ond tlodaidd y bwthyn traddodiadol. Dewch i wrando ar leisiau'r gorffennol wrth i chi fynd o 'stafell i 'stafell.

Mae clustffonau ar gael gyda dyfyniadau o waith yr awdures i'ch tywys o gwmpas y tŷ.

## La maison - Cae'r Gors,
### c'est-à-dire 'Champ marécageux'



"Le vent hurle autour de la maison et fait un bruit d'enfant en pleurs. Les branches de l'arbre à côté de la cour émettent des grincements aigus..." Y Lôn Wen

Remontez dans le temps jusqu'aux années d'enfance de Kate Roberts et appréciez le cadre douillet bien qu'humble de cette petite maison traditionnelle. Venez écouter les voix du passé en passant d'une pièce à l'autre.

Des audioguides contenant des extraits d'ouvrages de Kate Roberts sont mis à votre disposition pour vous guider d'un bout à l'autre de la maison.

